Estyn

*Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Carmel
# Neuadd Bentref Carmel
# Carmel
# Gwynedd
# LL54 7AB

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2011**

**gan**

**David K Davies**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cefndir y cylch chwarae

Sefydlwyd Cylch Meithrin Carmel yn 1976 ac fe'i lleolir yn Neuadd Bentref Carmel ynghanol pentref Carmel, Gwynedd. Mae'r plant sy'n mynychu'r lleoliad yn byw yn y pentref a'r ardaloedd cyfagos. Bernir nad yw'r ardal yn ffyniannus nac ychwaith o dan anfantais economaidd a chymdeithasol. Rheolir y lleoliad gan bwyllgor gwirfoddol. Mae'r lleoliad yn gweithredu fel aelod o 'Bartneriaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Sir Gwynedd'. Mae hefyd yn aelod cofrestredig o'r 'Mudiad Ysgolion Meithrin'.

Mae'r lleoliad yn darparu ar gyfer plant dwy i bedair oed. Mae'r lleoliad ar agor rhwng naw a phum munud wedi un ar ddeg y bore am bum sesiwn yr wythnos yn ystod tymor yr ysgol. Yn ystod yr arolygiad, yr oedd tri phlentyn tair oed ar y gofrestr. Cymraeg yw iaith y cartref i'r rhan fwyaf o'r plant. Mae un plentyn o gefndir ethnig yn mynychu'r lleoliad ar hyn o bryd. Nid oes un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol yn y lleoliad ar hyn o bryd.

Mae dau aelod o staff. Maent yn newydd ac wedi cychwyn yn eu swyddi ym Mehefin 2011. Mae'r lleoliad yng ngofal y prif ymarferydd ac mae yna un ymarferydd arall llawn amser. Maent yn meddu ar gymwysterau priodol ym maes addysg a gofal plant bach. Cafodd y lleoliad ei arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn Ebrill 2011. Dyma'r arolygiad cyntaf gan Estyn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y cylch chwarae** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r cylch chwarae** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- mae'r addysgu yn dda ar y cyfan;
- caiff y plant ofal da mewn amgylchedd dysgu cynhwysol;
- mae'r awyrgylch yn gynnes a chroesawgar;
- mae'r ymarferwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol; ac
- mae perthynas dda iawn rhwng y plant a'r ymarferwyr.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon y darparwr yn dda am y rhesymau canlynol:

- mae'r ddarpariaeth yn y lleoliad yn seiliedig ar y plentyn a'i anghenion unigol;
- mae'r lleoliad yn gweithio'n agos â staff yr awdurdod lleol a'r Mudiad Ysgolion Meithrin ac mae hyn yn profi'n fuddiol i ddatblygiad y lleoliad;
- mae'r staff yn mynychu'r cyfleoedd hyfforddiant yn rheolaidd;
- mae'r pwyllgor rheoli a'r rhieni yn cynnig cefnogaeth gadarn; a
- cheir chyd weithio agos gyda'r ysgol gynradd.

## Argymhellion

Er mwyn datblygu ymhellach mae angen i’r lleoliad:

A1 wella’r cynllunio hir dymor i sicrhau ei fod yn fwy strwythuredig;

A2 mireinio’r gweithdrefnau asesu er mwyn nodi’n glir yr hyn y medr y plant ei gyflawni ac i nodi’r camau nesaf yn eu dysgu;

A3 ymestyn sgiliau medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu’r plant ymhellach drwy ddarparu mwy o gyfarpar; a

A4 datblygu ymhellach yr amgylchedd allanol i ysgogi dealltwriaeth y plant o’r byd o’u cwmpas.

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro’r cynnydd.

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | |
|---|---|

## Prif ganfyddiadau

**Safonau:**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, y safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a'u lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i fedru adrodd amdanynt heb nodi plant unigol.

**Lles:**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a'u lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i fedru adrodd amdanynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod o weithgareddau diddorol ar draws y rhan fwyaf o'r meysydd dysgu. Darperir profiadau rheolaidd iddynt arbrofi â hwynt, sy'n gymorth i'r plant ddod yn ddysgwyr annibynnol. Darperir gweithgareddau da i'r plant ddatblygu eu medrau sylfaenol ac allweddol mewn llythrennedd, rhifedd a chreadigrwydd. Defnyddir fframweithiau cwricwlaidd priodol ar gyfer cynllunio'r ddarpariaeth. Mae'r cynllunio hir dymor yn seiliedig ar gyfres o themâu sy'n addas i ystod oed y plant. Mae'r cynllunio tymor byr yn rhoi sylw priodol i'r medrau penodol i'w datblygu yn y corneli dysgu o amgylch yr ystafell.

Mae'r cynllunio ar gyfer y gweithgareddau ffocws dan arweiniad oedolion yn fwy anwastad. At ei gilydd nid yw'r cynllunio yn cynnwys y manylder digonol i sicrhau cydbwysedd dilyniant a pharhad cyson yn y dysgu gan gynnwys datblygu medrau dysgu'r plant. Mae angen datblygu pellach ar y ddarpariaeth ar gyfer technoleg gwybodaeth.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r amgylchedd dan do a'r amgylchedd awyr agored mor llawn â phosib i annog plant i arbrofi gyda phrofiadau newydd. Fodd bynnag, mae angen mwy o gyfarpar priodol. Mae ymweliadau megis â fferm leol a safle cwmni amaethyddol cyfagos, yn ogystal â gofalu am blanhigion yn y lleoliad yn galluogi'r plant i gael dealltwriaeth dda bod angen trin yr amgylchedd a phethau byw gyda gofal.

Rhoddir sylw da i ddatblygu'r Gymraeg ac anogaeth gyson i blant ddefnyddio'r Gymraeg yn eu dysgu a'u chwarae drwy gyfrwng gweithgareddau priodol. Mae pwyslais addas ar hybu ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau a dathliadau Cymru.

Mae gweithgareddau addas sy'n briodol i'w hoedran yn helpu'r plant i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r byd ehangach a magi ymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd eang.

**Addysgu: Da**

Mae'r addysgu'n dda ar y cyfan. Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth dda o ddatblygiad plant ac o anghenion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Maent yn darparu profiadau dysgu cyson, sy'n ennyn diddordeb y plant.

Defnyddiant ystod briodol o ddulliau ac adnoddau addas i gynorthwyo'r addysgu. Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n dda fel tîm ac yn cynnig cefnogaeth gyson i'r plant. Maent yn cyfathrebu'n dda gyda'r plant yn ystod sesiynau stori neu waith grŵp. Defnyddiant iaith bwrpasol a chwestiynu treiddgar wrth ddatblygu geirfa'r plant. Mae'r plant yn ymuno'n egnïol yn ystod y sesiynau canu a chwarae rôl. Rheolir ymddygiad yn effeithiol.

Mae gweithdrefnau priodol yn bodoli i adrodd ar gynnydd a datblygiad y plant. Mae'r ymarferwyr yn adnabod eu plant yn dda. Maent yn arsylwi arnynt yn gyson wrth iddynt ymwneud â'u gweithgareddau ac yn cofnodi unrhyw ddatblygiadau arwyddocaol mewn ffeil nodiadau. Cofnodir sylwadau pellach ar ddatblygiad medrau'r plant ar daflenni cofnodi sy'n nodi cynnydd y plentyn yn briodol yn y meysydd dysgu. Fodd bynnag, ni wneir defnydd digonol o'r wybodaeth a gesglir i gynllunio'r camau nesaf yn y dysgu ac i ymestyn medrau'r plant yn gynyddol. Caiff rhieni a gofalwyr eu hysbysu'n gyson, yn ffurfiol ac anffurfiol am gyflawniadau, lles a datblygiad eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned ofalgar a threfnus. Mae polisïau a threfniadau i gefnogi iechyd a lles plant yn cael eu gweithredu. Mae'r trefniadau sefydlu ynghyd â'r cyswllt dyddiol gyda'r rhieni a gofalwyr yn sicrhau bod y plant yn ymgartrefu'n dda. Mae'r plant yn hapus yn y lleoliad ac yn gysurus yng nghwmni'r oedolion. Mae'r oedolion a phlant yn arddangos parch tuag at ei gilydd. Darperir byrbrydau iach i bob plentyn ac mae'r plant yn cael eu cymell i helpu ei gilydd. Mae "Helpwr y Dydd" yn rhoi cyfle i'r plant yn eu tro i gymryd cyfrifoldeb. Gosodir disgwyliadau clir sy'n hyrwyddo ymddygiad da.

Caiff anghenion y plant eu canfod yn gynnar a threfnir darpariaeth bwrpasol ac effeithiol ar eu cyfer. Cydweithir yn addas gydag asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol i ddiwallu unrhyw anghenion penodol. Mae gan y lleoliad bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu plant.

Mae profiadau dysgu addas yn hyrwyddo datblygiad personol plant yn dda, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Rhoddir pwyslais da ar ddatblygiad personol a chymdeithasol y plant. Anogir plant i ryngweithio gyda'i gilydd ac i fanteisio'n llawn ar y profiadau dysgu a ddarperir ar eu cyfer.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae’r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i’r cwricwlwm ac i’r holl weithgareddau a gyflwynir. Rhoddir pwyslais priodol ar ddathlu amrywiaeth. Llwyddir i greu amgylchedd cynnes a chroesawgar. Mae gan y lleoliad nifer digonol o ymarferwyr sy'n meddu ar wybodaeth a phrofiad priodol i gyflwyno’r cwricwlwm. Ar y cyfan ceir cyflenwad digonol o adnoddau a chânt eu defnyddio’n effeithiol i gefnogi’r dysgu a’r addysgu. Gwneir defnydd addas o ymweliadau ac o ymwelwyr o’r gymuned i ymestyn profiadau’r plant.

Mae’r adeilad yn cynnig cyfleusterau o ansawdd digonol. Cânt eu defnyddio'n llawn gan yr ymarferwyr. Defnyddir ardal y tu allan i’r ystafell ar gyfer gweithgareddau ond mae angen datblygu hyn ymhellach ar gyfer darparu gweithgareddau corfforol i’r plant.

| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae’r arweinyddiaeth a’r staff yn canolbwyntio ar anghenion y plant ac mae’r cylch yn llwyddo i gyflawni hyn yn dda. Mae strwythur clir i’r sesiynau, gyda rôl arbennig i bob aelod o’r staff. Mae polisïau addas, megis amddiffyn plant a sicrhau cyfleoedd cyfartal ac yn cael eu gweithredu. Mae gweithdrefnau cwyno ar gael ond nid oes cofnodion o unrhyw gwynion yn cael eu derbyn.

Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n agos fel tîm ac yn rhannu gwerthoedd cytûn ynghylch dysgu a datblygiad plant. Mae'r berthynas gyda phlant, y rhieni ar ysgol gynradd yn gadarnhaol iawn ac yn cyfrannu'n sylweddol at greu ymdeimlad o gymuned.

Mae’r pwyllgor rheoli yn cyflawni ei gyfrifoldebau yn gydwybodol. Mae’r aelodau yn gefnogol iawn ac wedi sefydlu perthynas dda gyda’r ymarferwyr. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd a chedwir cofnodion o’r trafodaethau sy’n sail i gynllunio pellach. Mae’r ymarferwyr yn ymateb yn briodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol perthnasol wrth iddynt gynllunio. Maent yn mynychu cyrsiau addas yn ymwneud ag agweddau ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a datblygiad a gofal plant. Defnyddiant yr hyfforddiant a geir yn effeithiol yn eu gwaith. Mae’r gweithdrefnau i arfarnu eu gwaith a chanfod eu datblygiad proffesiynol pellach yn datblygu’n briodol o dan system rheoli perfformiad.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae’r ymarferwyr yn agored i syniadau newydd ac yn barod i roi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio. Gwnânt ddefnydd priodol o’r cyfleoedd a ddarperir i gyd weithio a rhannu profiadau gyda lleoliad arall yn yr ardal.

Gwna’r lleoliad ddefnydd da o’i hunan arfarnu i nodi cryfderau a meysydd i’w gwella. Mae’r adroddiad hunan arfarnu’n arwain at ganfod pethau i’w gwella sydd yn sicrhau manteision cadarnhaol i bob plentyn.

Ymgynghora'r arweinyddion â rhieni, gofalwyr a'r plant i fwydo'r hunan arfarnu. Defnyddiant y wybodaeth a dderbynnir oddi wrth holiaduron i rieni i grynhoi barnau a chanfod meysydd i'w datblygu. Cydweithiant yn effeithiol iawn gydag ymgynghorwraig Cyfnod Sylfaen yr awdurdod lleol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Gweithia'r arweinyddes yn effeithiol iawn gydag athrawes ymgynghorol Cyfnod Sylfaen yr Awdurdod Lleol sydd yn monitro darpariaeth y cylch yn rheolaidd. Cydweithia'n dda hefyd gyda swyddogion Y Mudiad Ysgolion Meithrin sydd yn gefnogol iawn i'r cylch. Mae'r partneriaethau yma yn llwyddiannus iawn ac yn fuddiol i addysg y plant sy'n mynychu'r lleoliad .

Gweithia'r staff yn agos iawn gyda'r pwyllgor rheoli ac y maent yn barod iawn i ymgynghori ac i dderbyn awgrymiadau gan y rhieni a'r gofalwyr. Cesglir barn rhieni a gofalwyr drwy ddanfon holiadur a'u gwahodd i drafod yn uniongyrchol. Cafodd hyn ei gadarnhau yn y sgyrsiau gyda'r rhieni yn ystod yr arolygiad ac yn yr ymatebion i'r holiaduron.

Erbyn i'r plant adael y cylch, mae'r rhieni yn teimlo eu bod wedi'u paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae'r bartneriaeth rhwng y cylch a'r ysgol leol yn ffrwythlon iawn. Mae'r gwaith pontio yn hwyluso'r broses o drosglwyddo plant o'r lleoliad i'r ysgol. Defnyddir cysylltiadau cymunedol yn effeithiol i gefnogi dysgu'r plant trwy ymweliadau megis â'r fferm leol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r lleoliad wedi ei staffio'n briodol a gwneir defnydd effeithiol o allu'r ymarferwyr. Defnyddir system briodol ar gyfer rheoli perfformiad i werthuso staff ac i adnabod anghenion hyfforddiant.

Mae yna weithdrefnau priodol yn bodoli i gyflenwi dros dro pe bai un o'r ymarferwyr parhaol yn absennol o'r gwaith. Rheolir yr holl adnoddau'n dda gan y staff ac maent yn deall faint o gyllid sydd ar gael i'w wario. Mae'r pwyllgor rheoli a'r gymuned leol yn brysur iawn yn casglu arian i gefnogi'r lleoliad. Mae staff a rheolwyr y lleoliad wedi nodi meysydd i'w gwella ac maent yn ymwybodol o sut i symud y lleoliad ymlaen. Mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd deg o holiaduron rhieni a mynegwyd barnau cadarnhaol iawn am y ddarpariaeth. Teimlant fod eu plant yn gwneud cynnydd da a'u bod yn mwynhau mynychu' r lleoliad. Credant fod eu plant yn ddiogel iawn ac yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. Dywedant fod y staff yn hawdd sgwrsio â nhw a bod eu plant yn ymgartrefu'n dda yn eu cwmni. Maent o'r farn bod y lleoliad yn cael ei redeg yn dda.

**Ymateb i drafodaethau gyda'r plant**

Roedd bob plentyn yn gyfforddus wrth siarad ag ymwelwyr a dywedant eu bod yn hapus iawn yn y cylch. Ymunant yn frwdfrydig yn y gweithgareddau. Maent yn barod iawn i sgwrsio am eu hoff weithgareddau ac am eu ffrindiau.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| David K Davies | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)